Gwynedd

# Oed Gyfeillgar

## Asesiad Sylfaenol

Cyflwynwyd gan:
**Cyngor Gwynedd**

2024

Gwynedd Oed Gyfeillgar • Age Friendly Gwynedd

# Cyd-destun

Mae’r ddogfen hon yn bwrw trosolwg dros sefyllfa bresennol Gwynedd yng nghyd-destun cymdeithas sy’n heneiddio. Mae hi’n asesiad a gynhyrchwyd ar y cyd rhwng gwahanol fudd-ddeiliaid yng Ngwynedd, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, mudiadau trydydd sector, a’r Bwrdd Iechyd.

Fe’i cyflwynir law yn llaw gyda chynllun gweithredu Gwynedd oed-gyfeillgar. A’r ddwy ddogfen yma sy’n llunio cais Gwynedd ar gyfer y gydnabyddiaeth oed-gyfeillgar.

Yma, ceir data o Gyfrifiad 2021, Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru, o ymgynghoriadau lleol, â’r hyn rydym wedi’i glywed gan bobl hŷn o bob cwr o Wynedd.



**GWYNEDD**

**Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru gydag arwynebedd o 979 milltir sgwâr (2,540 km2). Mae ei phoblogaeth o 11,393 yn gyffredinol wasgaredig gyda rhai mannau trefol. Sir fynyddig yw Gwynedd a chanddi arfordir hir i'r gorllewin. Mae gennym gymunedau naturiol Gymraeg a bywiog, ac mae ein hymrwymiad i hybu’r defnydd o’r iaith ym mhob agwedd o fywyd yn brif flaenoriaeth.**

# Ein llythyr o ymrwymiad

**Pleser yw cyflwyno cais Gwynedd i fod yn aelod o rwydwaith Dinasoedd a Chymunedau sy’n Oed Gyfeillgar.**

Mae pobl hŷn yn drigolion gwerthfawr yn y sir gyda data Cyfrifiad 2021 yn nodi bod tua 44% o boblogaeth Gwynedd yn 50 oed a throsodd (ONS, 2021). Mae data rhagamcanion poblogaeth sail 2018 gan Lywodraeth Cymru (2021) yn rhagweld y bydd y boblogaeth 75 oed a hŷn yng Ngwynedd yn cynyddu 42.1% rhwng 2019 a 2043. Gyda phobl yn byw bywydau hirach ac iachach, mae’n hanfodol ein bod yn sicrhau fod ein cymunedau yn rhai dymunol, diogel a hygyrch i bobl wrth iddynt heneiddio.

Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi dangos ei ymroddiad i feithrin arferion sy'n ystyriol o oedran, gan wrando ar leisiau pobl hŷn a phenodi Hyrwyddwr Cyfeillgar i Oed. Heb os, mae’r ymdrechion hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar les a bywiogrwydd pobl hŷn, ac yn sicrhau bod urddas a pharch yn ganolog i wasanaethau.

Os ydym am i bobl hŷn barhau i gyfrannu a bod yn aelodau llawn o gymdeithas, mae’n rhaid datblygu’r meddylfryd oed gyfeillgar ar draws Gwynedd. Byddwn yn adnabod ac yn taclo’r rhwystrau sy’n effeithio llesiant pobl hŷn, yn ogystal â dathlu’r llwyddiannau a’r hyn sy’n gweithio’n dda. Credwn yn gryf y bydd cymunedau oed-gyfeillgar o fudd i bawb, ac yn enwedig y rhai sydd ag anableddau neu gyflwr meddygol tymor hir, rhai sy’n feichiog neu rieni plant bychan.

Wrth gwrs, nid mater i’r awdurdod lleol yn unig yw gweithio tuag at greu Gwynedd Oed Gyfeillgar ac fe gyd-weithiwn yn agos â’n Partneriaid lleol ar hyd y daith. Mae holl bartneriaid wedi cyfrannu mewn gweithdai a chyfarfodydd i sicrhau ein bod yn cydweithio’n gadarnhaol ar gyfer dyfodol.

Gobeithiwn yn fawr y bydd y cais hwn yn llwyddiannus ac y gallwn elwa o wybodaeth a phrofiad yr aelodau presennol a chyfrannu at ysbrydoli newid ar draws y byd. Deallwn fod hwn yn fan cychwyn ar daith ddiddorol o’n blaenau wrth i ni ymrwymo i weithio mewn modd sy’n ystyriol o oed er lles pobl Gwynedd.

**Llofnodwyd gan:**



Dafydd Gibbard,
Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd



Cllr. Dyfrig Siencyn,
Arweinydd Cyngor Gwynedd



Cllr. Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant.
Pencampwr oed-gyfeillgar Gwynedd.

# Pwy ydym ni?

**Fel cydweithredfa o fudd-ddeiliaid, ein nod yw sefydlu Gwynedd sy'n oed-gyfeillgar.**

**Er mwyn cyflawni'r nod, rhaid dod â phobl hŷn Gwynedd a sefydliadau ledled y sir at ei gilydd, gan sicrhau ymrwymiad a chydweithio.**

**Wrth ddod â phawb ynghyd, rydym yn adeiladu ar ein gweledigaeth, ac yn dod i ddeall sut i ddatblygu'n barhaus mewn modd oed-gyfeillgar. Mae pobl hŷn wedi bod yn rhan ganolog o'n holl waith o lunio'r datblygiadau hyn.**

**Mae rhestr partneriaid oed-gyfeillgar Gwynedd yn tyfu'n barhaus. Dyma'r un mwyaf cyfredol:**

Adra
Age Cymru Gwynedd a Môn
Antur Aelhaearn
Antur Waunfawr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Byw'n Iach
Canolfan Henblas
Carer's Trust
Congl Meinciau
Cymunedoli Cyf.
Cyngor Gwynedd
Dementia Actif Gwynedd
Eryri Cydweithredol
Gisda
Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn (Care and Repair Gwynedd and Môn)
Grŵp Cynefin
Heddlu Gogledd Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru (Betsi Cadwaladr)
Mantell Gwynedd
O Ddrws i Ddrws
Partneriaeth Ogwen
Porthi Dre
Prifysgol Bangor
South Meirionnydd Older People's Forum
Tai Gogledd Cymru (NWHA)
Y Dref Werdd
Yr Orsaf

# Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yng Ngwynedd yw adeiladu cymunedau hyfyw a bywiog lle nad yw oedran yn rhwystr. Gan weithio mewn partneriaethau cryf, byddwn yn datblygu cymunedau gwydn lle mae agwedd oed-gyfeillgar yn flaenoriaeth.

Mewn ardal gyda phoblogaeth sy’n heneiddio, rhaid i ni adeiladu ar ein gweledigaeth oed-gyfeillgar a blaenoriaethu’r wyth parth yn ein cymunedau.

- Mannau ac adeiladau awyr agored
- Cludiant
- Tai
- Cyfranogiad cymdeithasol
- Parch a chynhwysiant cymdeithasol
- Cyfranogiad dinesig a chyflogaeth
- Cyfathrebu a gwybodaeth
- Cefnogaeth gymunedol a gwasanaethau iechyd.



# Ein Blaenoriaethau

**1** Creu cyfleoedd i glywed lleisiau pobl hŷn Gwynedd

**2** Creu cyfleoedd i weithio'n agos gyda pobl hŷn fel partneriaid i gyd-gynhyrchu a chyd-ddatblygu

**3** Creu Gwynedd sy’n gynhwysol i bawb.

**4** Cydnabod bod lle i wella bob amser, a’n bod yn ymrwymo i wneud hyn.

# Cefndir

Gwynedd, yng Ngogledd Orllewin Cymru, yw'r sir ail fwyaf yn y wlad. Gan ei bod hefyd yn wledig, yn de’r sir yn enwedig, mae heriau gwirioneddol gyda trafnidiaeth a chludiant, unigrwydd, a mynediad at wasanaethau iechyd.

Dangosodd Cyfrifiad 2021 fod gan Gymru boblogaeth sy’n heneiddio; patrwm oedd yn cael ei adleisio yng Ngwynedd. Gan fod yr un patrwm i’w weld ar draws Cymru gyfan, ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Cymdeithas sy’n Heneiddio.

Yn 2021, roedd 44.3% o boblogaeth Gwynedd dros 50 oed (Cyfrifiad 2021) o’i gymharu â 40.1% yn 2011. Erbyn 2038, rhagwelir bydd 25% o bobl Cymru dros 65 oed. 65 oed yw'r grŵp oedran sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae cymdeithas sy’n heneiddio yn digwydd am fod pobl yn byw yn hirach ac am fod cwymp yn nifer y genedigaethau (Harper, 2016).

Mae llawer o bobl ofn heneiddio oherwydd camsyniadau am heneiddio a’r mythau a’r stigma ynghylch mynd yn hŷn (Börsch-Supan, 2013). Dyma farn rhai oedolion hŷn Gwynedd hefyd, ond drwy weithio mewn modd oed-gyfeillgar ar draws y sir gallwn symud oddi wrth y feddylfryd hon.



# Polisi yng Nghymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015) yn rhoi sylfaen i greu gwlad lle buasem ni i gyd eisiau byw ynddi, heddiw ac yn y dyfodol. Dyhead Llywodraeth Cymru yw cymunedau lle nad oes unrhyw le i ragfarn. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar weithio heddiw i ddatblygu gwell dyfodol ar gyfer ein yfory.

Mae egwyddorion Cymru Oed-gyfeillgar yn debyg: gweithio mewn partneriaeth gref, yn cau’r bwlch oedran, ac adeiladu Cymru, a Gwynedd, lle gall pobl fyw yn dda beth bynnag fo’u hoedran.

Ceir saith nod llesiant yn y Ddeddf, ac yng Ngwynedd rydym yn gweithio tuag at y nodau hyn.




Ym mis Hydref 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth “Cymru Oed-Gyfeillgar: ein strategaeth tuag at gymdeithas sy’n heneiddio”. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gwneud Cymru yn wlad oed-gyfeillgar ond hefyd yn lle gwych i heneiddio ynddi. Daeth cyllid gyda’r Strategaeth hon i gefnogi swyddogion ledled Cymru i adeiladu cymunedau sy’n oed-gyfeillgar ac i ddeall sut beth yw cymuned oed-gyfeillgar.

Yng Gwynedd mae sefydliadau, grwpiau cymunedol, a’r Awdurdod Lleol yn cyd-weithio i roi cymorth i unigolion wrth iddynt heneiddio, ac i ddeall y fath o gefnogaeth sydd ei hangen ar drigolion. Mae amrywiaeth o gefnogaeth ar gael yma, o gyfranogiad cymdeithasol a mynediad at wasanaethau iechyd, i ofal.

Yn y ddwy ddogfen ceir dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau a phartneriaid yng Ngwynedd yn diwallu gofynion y Strategaeth.

# Rolau Oed-Gyfeillgar

Yn unol â gofynion y Strategaeth mae Cyngor Gwynedd wedi creu dwy swyddogaeth i gefnogi cymunedau, sefydliadau ac unigolion i weithio mewn modd sy'n oed-gyfeillgar. Mae un o'r swyddogaethau yn gyfrifoldeb aelod o staff y Cyngor ac un o'r swyddogaethau yn perthyn i aelod cabinet.



Cynghorydd Dilwyn Morgan,
Pencampwr Oed-gyfeillgar
Cyngor Gwynedd 2022 - 26

Mae gan y Swyddog Oed-gyfeillgar gyfrifoldebau penodol dros y gwaith hwn a'r datblygiadau Oed-gyfeillgar, a phenodwyd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn Bencampwr Oed-gyfeillgar. Ymysg cyfrifoldebau'r ddau mae:


- Sicrhau bod pobl hŷn yn cael lleisio'u barn, a'u cynnwys mewn penderfyniadau a datblygiadau yn eu cymunedau
- Cydweithio i sicrhau fod penderfyniadau a newidiadau a wneir yng Ngwynedd yn cwrdd â'r agenda oed-gyfeillgar a'i egwyddorion
- Hyrwyddo ac annog ymarfer rhwng y cenedlaethau i adeiladu cymunedau gwydn
- Bod yn llais i bobl hŷn yn Siambrau'r Cyngor ac unrhyw gyfarfod perthnasol
- Hyrwyddo pwysigrwydd darparu gwybodaeth a chyngor i bobl hŷn yn y ffyrdd y maen nhw eisiau eu derbyn


Mae'r holl bartneriaid yng Ngwynedd wedi penodi'u swyddogion eu hunain i fod yn gyfrifol am yr agenda oed-gyfeillgar. Maent yn sicrhau bod y sefydliadau'n gweithio mewn ffordd sy'n oed gyfeillgar.


# Gwaelodlin ac Ymgynghori

Yn yr adran hon, byddwn yn rhannu a dadansoddi data sydd wedi'i gasglu trwy ymgynghori â phobl hŷn yn uniongyrchol, ac o ffynonellau megis Cyfrifiad 2021 a Rhagamcanion Poblogaeth 2043, er mwyn rhoi darlun o'r sefyllfa yng Ngwynedd yn awr ac i'r dyfodol.

# Ardal Ni 2035




Er mwyn galluogi i ni ddysgu am ein cymunedau, eu dyheadau, a'r sefyllfa bresennol, sefydlodd Cyngor Gwynedd brosiect Ardal Ni 2035.


Canlyniad y broses oedd creu Fframwaith Adfywio i Wynedd. Ei nod fyddai sicrhau bod partneriaid yn cydweithio yn eu cymunedau lleol i wella eu cymdogaethau yn economaidd, yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

Yng ngham cychwynnol ymgynghoriad Ardal Ni, trafodwyd gyda 3,685 o unigolion ar draws Gwynedd. Yn yr ail gam mynychodd partneriaid weithdai Ardal Ni a oedd yn eu galluogi i adnabod prosiectau ac adeiladu ar gyfleoedd i gydweithio.


Bydd cynllun Ardal Ni yn cael ei weithredu drwy'r pum ffordd allweddol o weithio a ddisgrifir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015.

Rydym ni fel partneriaid Gwynedd Oed-gyfeillgar wedi defnyddio canlyniadau ymgynghoriad Ardal Ni yn ein cynllun gweithredu. Gallwch weld y canfyddiadau llawn fan hyn.

# Heddiw ac i’r dyfodol...





Mae data **Cyfrifiad 2021** yn nodi bod **44.3% o boblogaeth Gwynedd** yn **50+ oed**. Roedd cynnydd ym mhob grŵp oedran dros 50 oed rhwng **Cyfrifiad 2011 a 2021**, fel dengys y graff uchod.





Yn ôl rhagamcan poblogaeth 2018 Llywodraeth Cymru ar gyfer 2043, bydd **poblogaeth 75+ oed** Gwynedd yn cynyddu o **13,350 yn 2019 i 18,968 yn 2043**. Mae hyn yn **gynnydd o 42.1%**. Bydd y rhagamcanion hyn yn cael eu diweddaru i gyd-fynd â chanlyniadau Cyfrifiad 2021.

# YSTADEGAU (ONS, Cyfrifiad 2021)


Nododd **68.3%** o boblogaeth **50 oed+** Gwynedd eu bod mewn **iechyd da iawn neu dda.** Nododd **22.5% iechyd gweddol** a **9.2% iechyd gwael neu wael iawn.**





Nododd **13% o boblogaeth Gwynedd 50+** oed eu bod yn **darparu gofal di-dâl yn wythnosol.**

Mae **29%** o boblogaeth **Gwynedd sy'n 50+ oed yn anabl** (yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb, 2010).




## Dementia

Mae data gan Gofal Cymdeithasol Cymru (heb ei ddyddio) yn nodi y rhagwelir y bydd nifer y **bobl 65+ oed â dementia** yng Ngwynedd yn **cynyddu 53%** rhwng **2020 a 2040** (data yn seiliedig ar ddata rhagamcanion poblogaeth 2014).



# Gwrando ar leisiau pobl hŷn

## Cyngor Pobl Hŷn

Cyn Covid-19, roedd gan Gyngor Gwynedd Gyngor Pobl Hŷn a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd rhyw bum gwaith y flwyddyn i rannu gwybodaeth a phryderon efo Cyngor Gwynedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyn y cyfyngiadau, gostyngodd aelodaeth y Cyngor yn sylweddol, ac yn 2019 bu Cyngor Gwynedd yn ystyried gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â phobl hŷn i ddysgu beth oedd eu dyheadau.

Daeth yn amlwg bod angen i Gyngor Gwynedd ail-feddwl am ei brosesau ymgysylltu er mwyn cyrraedd pobl hŷn. Oherwydd natur wledig y Sir, nid oedd cyfarfod mewn un lleoliad canolog yn ymarferol, a byddai angen mynd i gymunedau lleol, a manteisio ar rwydweithiau lleol.

## Fforymau ac addasu ar ôl Covid-19

Yn 2021, yn dilyn y pandemig, roedd nifer o ardaloedd yng Ngwynedd yn brin o gyfleoedd cymdeithasol i pobl hŷn. Roedd sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys:

- lleihad yn nifer gwirfoddolwyr
- sefydliadau yn colli cysylltiad â mynychwyr
- colli aelodau yn sgil y pandemig
- pobl yn ofni ailddechrau cymdeithasu ar ôl dwy flynedd o ynysu.

Yn dilyn rhyddhau ‘Cymru Oed-Gyfeillgar: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy’n Heneiddio’ a grant gan Lywodraeth Cymru, cychwynnodd Cyngor Gwynedd gynllun grantiau bychain fel modd o ail gychwyn gweithgareddau cymdeithasol ar draws Gwynedd a hybu cyfleoedd newydd.

Roedd y grant yn cynnig cymorth i gymunedau a grwpiau cymdeithasol ddod at ei gilydd unwaith eto - o gyfleoedd cymdeithasol i ddosbarthiadau ffitrwydd i deithiau dydd. O’r sesiynau hyn roeddem hefyd yn gallu clywed lleisiau pobl hŷn a dysgu sut orau i gefnogi unigolion wrth symud ymlaen tuag at Wynedd oed-gyfeillgar.

Gellir gweld gwybodaeth am y grant ar y dudalen nesaf, neu cliciwch yma: Grant Oed-gyfeillgar Cyngor Gwynedd 2021-22.

# 2021-22
# Grant Oed-gyfeillgar

| | |
|---|---|
| 71 | Bu i ni dderbyn 71 cais ar draws Gwynedd. |
| 59 | **Roedd y 59 cais yn llwyddiannus** yn cyrraedd y gofynion perthnasol. |
| 1948 | Bu i 1,948 o bobl hŷn elwa o'r grant. Nododd nifer nad oeddent wedi cymdeithasu wyneb yn wyneb fawr ddim ers dechrau 2020 cyn y cyfle hwn. |

Ar y cyd â'r grant, aethom i rai digwyddiadau a rhannu holiadur gyda'r holl gyfranogwyr i ddysgu mwy am yr hyn yr oedd gan bobl hŷn yng Ngwynedd ddiddordeb ynddo a beth sydd ei angen.

Roedd rhai o'r themâu a gododd yn cynnwys eithrio digidol a'r diffyg mynediad at wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn lleol. Pwysleisiodd nifer yr ofn o gymdeithasu yn dilyn dwy flynedd o gyfnodau clo, a rhannodd rhai syniadau am yr hyn y mae heneiddio'n dda yn ei olygu iddynt hwy fel unigolion yng Ngwynedd.

Trosglwyddwyd yr adborth i sefydliadau, Cysylltwyr Cymunedol, a grwpiau yn y cymunedau i ddeall yr hyn oedd ar bobl ei angen yn lleol.









# Fforymau

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal cyfres o fforymau i drafod pynciau, clywed lleisiau, a rhannu gwybodaeth gydag oedolion hŷn ar draws Gwynedd. Cynhaliwyd cynhadledd yn 2022 a ddenodd dros 100 o unigolion.

Er bod y fforymau'n wych ar gyfer trafodaethau, rydym yn ymwybodol mai dim ond canran fechan o bobl hŷn yr ydym yn eu cyrraedd a bod tuedd i glywed yr un lleisiau.

Oherwydd hyn, rydym wedi gweithio'n agos gydag aelodau etholedig a phartneriaid ar draws Gwynedd i gynnal digwyddiadau, sesiynau galw heibio a theithiau cerdded o amgylch yr ardaloedd lleol er mwyn siarad yn uniongyrchol â phobl a gwrando ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Roedd yn gyfle penigamp i glywed lleisiau newydd.



Fforwm Pwllheli
**Ionawr 2023**



Fforwm Dolgellau
**Mawrth 2023**

# Sgyrsiau Oed-Gyfeillgar

Yn 2023, aeth aelodau etholedig ati i gael sgyrsiau oed-gyfeillgar yn eu cymunedau lleol a arweiniodd at glywed gan fwy o bobl hŷn ar draws Gwynedd. Aethant i gaffis, a buont yn curo ar ddrysau i geisio cyrraedd y rhai nad ydynt fel arfer yn mynychu fforymau neu ddigwyddiadau ymgynghori eraill.

Bydd y sgyrsiau hyn yn parhau i gael eu cynnal ar draws Gwynedd er mwyn:

- Clywed gan bobl sy'n anodd eu cyrraedd
- Clywed pa heriau y mae pobl yn eu hwynebu o ddydd i ddydd
- Rhoi cyfle i gynghorwyr lleol glywed am yr heriau sy’n wynebu pobl er mwyn codi’r materion mewn modd briodol yn rhinwedd eu swydd
- Cynnal sgyrsiau sy'n adnabod cryfderau unigolion a chryfderau eu cymunedau
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl yn ôl yr angen.







Lluniau yn rhai o'r lleoliadau ymwelwyd â nhw gyda’r cynghorwyr lleol.